



Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

Annwyl Rieni / Gofalwyr,

Gweler y neges isod gan Adran Addysg Cyngor Sir Ceredigion

Fel y byddwch yn ymwybodol, mae niferoedd o achosion Coronavirus ar gynydd yn gyflym ar draws Cymru, ac yng Ngheredigion.

Mae hyn wedi arwain at ysgolion yn ei chael hi'n gynyddol anodd i gynnal lefelau staffio wrth i aelodau staff a'u teuluoedd gael eu hadnabod fel cysylltiadau neu gael symptomau a threfnu profion. Mae'r opsiynau sydd gan ysgolion o ran staffio yn gyfyng oherwydd yr angen i gadw grwpiau cyswllt ar wahân er mwyn atal lledu'r feirws. Rydym yn bryderus y bydd y sefyllfa hon yn parhau i waethygu yn ystod yr wythnos i ddod.

Bydd ysgolion uwchradd yn cau i'r mwyafrif o ddisgyblion ddydd Gwener 11eg Rhagfyr. Bydd rhai disgyblion angen mynychu'r safle ddydd Llun 14eg Rhagfyr a bydd yr ysgol yn hysbysu'ch plentyn os oes angen iddynt fod yn bresennol ar y dydd Llun.

Bydd pob ysgol gynradd ac uwchradd yng Ngheredigion yn darparu dysgu o bell o ddydd Mawrth 15fed Rhagfyr hyd at ddiwedd y tymor ar ddydd Gwener 18fed Rhagfyr. Bydd hyn yn golygu na fydd disgyblion ar safle'r ysgol yn ystod y cyfnod hwnnw. Bydd gweithgareddau dysgu o bell yn cael eu darparu ar eu cyfer gan eu hathrawon.

Bydd pawb eisiau mwynhau gyda theuluoedd dros y Nadolig, a bydd troi i ddysgu o bell o'r 15fed ymlaen yn rhoi 10 diwrnod cyn diwrnod Nadolig pe bai digwydd bod angen hunan ynysu ar ddisgyblion neu eu teuluoedd.

Os ydy 'ch plentyn neu unrhyw aelod o'ch aelwyd yn datblygu symptomau Covid-19 yna ffoniwch 119 am brawf neu archebu drwy <https://gov.wales/apply-coronavirus-covid-19-test>.

Pe bai'ch plentyn yn derbyn canlyniad prawf positif dros gyfnod y gwyliau holwn ichi e bostio SchoolCovidSymptoms@ceredigion.gov.uk gydag enw'ch plentyn, blwyddyn ac ysgol. Mae'r cyfnod hunan ynysu bellach wedi newid i 10 diwrnod yn lle 14.

Os ydych chi'n arferol yn hawlio Prydau Ysgol am Ddim (FSM) byddwch yn derbyn taliad BACS neu daleb Tesco o £58.50 (y plentyn) i'ch helpu dros y 3 wythnos y byddant adref. Byddwch wedi derbyn e-bost gan Gyngor Sir Ceredigion ar ddechrau'r wythnos gyda doler i'w dilyn os hoffech roi'ch manylion banc i'r diben hwn (os ydych chi wedi derbyn y taliad o'r blaen bydd dim angen ail gyflwyno manylion). Bydd angen i chi wneud hyn erbyn 12pm Dydd Llun 14 Rhagfyr, gan mai gobaith Cyngor Sir Ceredigion yw anfon allan y taliadau/talebau hyn erbyn diwedd wythnos nesaf. Os na dderbynioch e-bost ac rydych yn teilyngu taliad yn lle taleb, cysylltwch â 01545 570 881 / clc@ceredigion.gov.uk

Mae disgyblion Ysgol Gymraeg Aberystwyth wedi bod yn hynod gyfrifol yn eu hymateb i heriau'r tymor hwn, ac rydym yn falch iawn ohonynt. Hoffwn ar ddiwedd tymor ddiolch o waelod calon ichi fel rheni/gofalwyr am eich cydweithrediad ac i holl staff yr ysgol am roi eu hysgwydd o dan y baich.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

R C Williams, Pennaeth 10/12/2020



Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

Dear Parents / Carers,

Please see the following message by Ceredigion Education Department

As you will be aware, numbers of Coronavirus cases are increasing rapidly across Wales, including in Ceredigion.

Schools are finding it increasingly difficult to maintain staffing levels as increased numbers of staff and their families are identified as contacts or experience symptoms and organise tests. Schools have limited staffing options due of the need to separate contact groups to prevent the spread of the virus. We are concerned that this situation will continue to worsen in the coming week.

Secondary schools will close to the majority of pupils on Friday 11th December. Some pupils will be asked to attend on Monday 14th December and the school will contact your child if they are expected to be on site on Monday.

Ceredigion primary and secondary schools will provide distance learning as from Tuesday 15th December to the end of term on Friday 18th December. This will mean that pupils will not be on school premises during that period. Distance learning activities will be provided for them by their teachers.

Everyone will want to enjoy with families over Christmas, and providing distance learning from the 15th onwards will give 10 days before Christmas day in the possible event of pupils or families needing to self-isolate.

If your child, or any member of your household has Covid-19 symptoms during the holiday period please continue to request a test by phoning 119 or using the online portal <https://gov.wales/apply-coronavirus-covid-19-test>.

If your child has a positive Covid test result over the holiday period please e-mail your child's name, year group and school to SchoolCovidSymptoms@ceredigion.gov.uk. The self-isolation period has now changed to 10 days and not 14.

If your child is eligible for Free School Meals (FSM), you will receive a BACS payment or Tesco voucher for £58.50 (per child) to assist you over the 3 weeks they will be at home. You should have received an email from Ceredigion County Council at the start of this week with a link to follow if you wish to submit your bank details for this purpose (you do not need to re-submit if you have received payments in the past). You will need to do this by 12pm Monday 14 December, as Ceredigion County Council hope to send out these payments/vouchers by the end of next week. If you did not receive an email and would prefer a payment rather than a voucher, please contact 01545 570 881 / cliv@ceredigion.gov.uk

Pupils at Ysgol Gymraeg Aberystwyth have been extremely responsible in their response to the challenges faced during this term, and we are very proud of them. I would like at the end of term to thank you as parents/carers for your co-operation and all the staff for their dedication.

Merry Christmas and a Happy New Year

If you have any concerns about your child's education then please contact me immediately

R C Williams, Headteacher 10/12/2020